GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

SWYDD DDISGRIFIAD

ARWEINYDD TÎM CREADIGOL A THERAPIWTIG

GYFRIFOL I: **Pennaeth Datblygu**
LLEOLIAD: **Caernarfon**
ORIAU **Hyblyg – Llawn Amser neu Rhan Amser**
CYFLOG: **Graddfa B4 16 - £21,432.38**
CONTRACT: **hyd at Mawrth 2023**

PWRPAS Y SWYDD

- ✓ **Arwain prosiect GISDA Greadigol**
- ✓ **Datblygu ymyraethau therapiwtig o fewn GISDA**

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Arwain prosiect GISDA GREADIGOL a darparu rheolaeth llinell i swyddogion y prosiect. Ar hyn o bryd mae 3 aelod cyflogedig yn rhan o GISDA Greadigol.
- Cydlynu gweithgareddau ag amserlenni creadigol.
- Hyrwyddo a hyfforddi staff eraill ar y budd o waith creadigol.
- Ceisio am grantiau i gryfhau GISDA GREADIGOL.
- Pwynt cyswllt i ddatblygu cyfleoedd creadigol gyda phartneriaid megis Cerdd Cymunedol Cymru, Franwen, CARN, Llenyddiaeth Cymru.
- Integreiddio gwaith creadigol i mewn i holl brosiectau GISDA.
- Creu a darparu pecynnau addysgol creadigol a darparu achrediadau Agored Cymru perthnasol.
- Creu cynllun Theatr Fforwm ac ailsefydlu grŵp o fewn GISDA
- Gweithio ar y cyd ag arweinwyr tîm GISDA i sicrhau y gorau i bobl ifanc.
- Rheoli gwirfoddolwyr y prosiect
- Creu system monitro i ddangos gwerth y prosiect.
- Rheoli cyllideb y prosiect
- Cydweithio ac arwain ar brosiect Caffi Creu GISDA sef prosiect i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd

- Sicrhau bod Model Fi yn ganolog i holl waith GISDA. (Ffordd o weithio yn therapiwtig)
- Arwain a chydlynu ymgynghorwyr allanol pan fo'r angen
- Ymchwilio mewn i ymyraethau i atgyfnerthu ein darpariaeth therapiwtig.

- Cydlynu profiadau gwaith creadigol a therapiwtig e.e myfyrwyr cwrs cwnsela

- Gweithio yn agos gyda prosiect Fedra i / ICAN i sicrhau darpariaeth hyfforddiant Model Fi.

- Codi ymwybyddiaeth o'r gwaith

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- I weithio o fewn fframwaith PIE, yn unol a model therapiwtig GISDA.
- I adeiladu perthynas gref, iach ,a chyfeillgar gyda pobl ifanc gan roi y cyfle iddynt ymgysylltu/ a mynegi ei hunain mewn awyrgylch ffurfiol ac anffurfiol.
- I greu awyrgylch di sefydliad, saff a chroesawgar sydd yn rhoi y cyfle i bobl ifanc drafod a mynegi ei teimladau /pryderon.
- I hyrwyddo ac annog pobl ifanc i ofalu am lles ei hunain a bod yn fwy annibynnol.
- I annog, ysgogi a credu mewn pobl ifanc .
- Ymddwyn fel rôl model i bobl ifanc gan ddangos ffyrdd 'pro social' o ddelio a phroblemau.
- Sefydlu perthnasau positif gyda pobl ifanc a chynnig agwedd gadarnhaol ddiamod.
- Cyfrannu tuag at hyfforddiant a datblygiad personol eich hun.
- Hyrwyddo agwedd gyfeillgar, ddi-ragfarn, ym mhob agwedd o'r gwaith tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, cyd-weithwyr, aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac aelodau o'r cyhoedd / asiantaethau eraill.
- Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant mewnol y Cwmni.
- Hyrwyddo nod ac amcanion y Cwmni.
- I gydymffurfio ag ymarfer Cyngor Gofal Cymru tra'n gweithredu unrhyw ddyletswyddau/cyfrifoldebau.
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau rhesymol yn ôl yr angen.
- Ymlynu at holl bolisïau a gweithdrefnau cyfredol y Cwmni.
- Cyfrannu at sesiynau arolygaeth.
- Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol ac mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau.

Disgwylir i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau; pan fo raid iddynt newid y tu fewn i'r gyfundrefn er mwyn cwrdd â gofynion ac anghenion y gwasanaeth.

MANYLION PERSON

HANFODOL	
Cymwysterau a Phrofiad	
NVQ 2 neu gyfatebol mewn maes perthnasol	
Profiad o reoli staff	
Profiad o gydlynu prosiectau	
Parodrwydd i weithio oriau hyblyg	
Diddordeb ac angerdd mewn waith creadigol a'i werth.	
Sgiliau	
Sgiliau creadigol	
Rhwydweithio a rhyngweithio	
Cyfathrebu mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y Gymraeg neu Saesneg	
Y gallu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth i gynnig gwelliannau	
Defnyddio meddalwedd fel Word , Excel , Outlook a PowerPoint	
Blaenoriaethu a threfnu gwaith	
Sgiliau rhyngbersonol dda.	
Y gallu i weithio gyda phobl ifanc bregus gydag anghenion dwys.	
Y gallu i ddelio a gwybodaeth gyfrinachol a sensitif.	
Y gallu i weithio o dan bwysau yn hyderus	
Gweithio ar ben dy hun neu fel rhan o dîm	
Sgiliau gweinyddu	
Y gallu i gynrychioli'r cwmni	
Trwydded yrru llawn	
DYMUNOL	
Profiadau / Cymwysterau / Sgiliau	
Addysg i lefel gradd	
Profiad o Agored Cymru	
Profiad o gynnal gweithdai a hyfforddiant	
Profiad o waith therapwitig	
Ymchwilio i gadw i fyny gyda deddfwriaeth neu unrhyw weithdrefnau newydd	
Rheoli cyllidebau	
Trefnus.	
Profiad o fonitro prosiectau	
Profiad o weithio ar ceisiadau grant	